Pris: 50c

Papur Pawb

Ionawr 2015 Rhif 405

Dau ŵr doeth. Ond ble mae'r trydydd ? tud.4

tud 3 Pobl a Phethe

tud 10 Dylan ar Daith ... a fi!

tud 11 Y Gair Olaf

tud 12 Ar y Brig

Achub y Clwb ar ôl Ysgol

Rhai o blant hapus y Clwb ar ôl Ysgol

Gyda grant arbennig mewn argyfwng o £300 a gafwyd gan Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr, llwyddwyd i achub y Clwb ar ôl Ysgol yn Nhal-y-bont. Gwnaed y cais am gymorth brys i'r Cyngor wedi iddi ddod i'r amlwg nad oedd digon o arian ar gael yn y coffrau i dalu cyflogau'r cynorthwywyr ar ddiwedd y tymor.

Oni bai am y grant hwn mae'n bosibl y byddai'r Clwb wedi gorfod cau, neu bod y ffioedd yn cael eu codi fel na allai'r rhieni fforddio eu talu.

Meddai Hefin Jones, Prifathro'r ysgol:
'Mae'r grant yn golygu bod dyfodol y Clwb bellach yn ddiogel am rai misoedd ac fe fydd hyn yn gymorth i ni gael amser i ymchwilio i ffyrdd eraill o sicrhau fod y Clwb yn gynaliadwy yn y tymor hir. Ar ran Pwyllgor y Clwb ar ôl Ysgol, ac ar ran cymuned ehangach yr ysgol, mae'n bleser gen i ddiolch yn fawr i'r cynghorwyr am eu cefnogaeth i'r ysgol.'

Meddai llefarydd ar ran y Cyngor Cymuned:
'Fel rheol, dim ond yn ystod y cyfnod swyddogol o geisiadau am gymorth ar ddechrau pob blwyddyn y byddwn yn dyfarnu arian i glybiau a chymdeithasau, a bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ofalus gan yr is-bwyllgor ariannol. Ond yn yr achos hwn, gwnaed y cais mewn amgylchiadau arbennig i gyfarfod llawn o'r Cyngor ddiwedd Tachwedd, a barn yr aelodau oedd fod dyletswydd ar y Cyngor i geisio helpu mewn argyfwng. Credwn fod gwasanaeth y Clwb ar ôl Ysgol yn allweddol i warchod plant rhieni sy'n gweithio, yn enwedig y rhieni hynny sydd heb deulu'n byw'n lleol. Mae'n wasanaeth pwysig i'w gadw a'i gynnal, oherwydd mae'n golygu fod modd i rieni sy'n gweithio yn Aberystwyth, er enghraifft, gael gwarchod eu plant mewn awyrgylch diogel a hwyliog rhwng 3.30 a 5.30 ar brynhawniau Mercher a Iau.'

BLWYDDYN NEWYDD DDA I'N HOLL DDARLLENWYR



Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com	(01970) 832560
Tynnu lluniau:	Cysyllter â golygyddion y mis	
	GOHEBYDDION LLEOL	
Tal-y-bont:	Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont	832592
	Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont	832438
Maes-y-deri:	Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont	832483
Parsel Henllys:	Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont	832498
Bont-goch:	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	832566
Tre Taliesin:	Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin	832230
Tre'r-ddôl:	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl	832429
	Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl	(01654) 781260
Eglwysfach/Ffwrnais:	Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais	(01654) 781324
	CYMDEITHAS PAPUR PAWB	
Cadeirydd:	Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Is-gadeirydd:	Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont	832760
Ysgrifennydd:	Geraint Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont	832433
Trysorydd:	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Tanysgrifiadau:	Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Hysbysebion:	Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont	832076
Plygu'r Papur:	Gwenllïan Parry-Jones; Tegwen Jones	
Dosbarthwyr:	John Leeding; Lynn Ebenezer; Gwenllïan Parry-Jones	

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Llythyrau

'Digidol ar Daith' – Creu a Rhannu Newyddion yn Gymraeg

Rwy'n ysgrifennu ar ran Canolfan Newyddiaduraeth Gymunedol Prifysgol Caerdydd, a sefydlwyd er mwyn cefnogi a chynnal datblygiad newyddion a gwybodaeth ar lefel leol iawn.

Rwyf am adael i chi wybod am gyfleoedd i bobl yn eich cymuned sydd â diddordeb mewn creu a rhannu newyddion yn Gymraeg i gael hyfforddiant am ddim a gwybodaeth am adnoddau newydd i'w helpu.

Fe fyddwn yn cynnal nifer o weithdai yn y flwyddyn newydd a hefyd yn cyhoeddi adnoddau newydd ar-lein ac mewn print gan gydweithio gyda Golwg 360 a mudiadau lleol i gynnal yr hyfforddiant.

Hoffem barhau i anfon newyddion atoch chi am 'Digidol ar Daith'. Os gwyddoch am unrhyw un arall allai fod â diddordeb mewn gwybod am y gwaith neu fanteisio ar y cyfle, anfonwch ymlaen atyn nhw fel eu bod yn gallu cofrestru.

Rydym ni eisoes wedi dechrau rhannu cynnwys ar Trydar ac ar ein gwefan. Gallwch ddilyn ar https://twitter.com/digidolardaith. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth a'ch amser.

Facebook - www.facebook.com/DigidolArDaith
Twitter - @digidolardaith
www.digidolardaith.com

Am fwy o wybodaeth anfonwch e-bost helo@digidolardaith.com

Sara Moseley
Cymrawd a Chyfarwyddwr Datblygu
Ysgol Newyddiaduraeth,y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol Prifysgol Caerdydd
Bute Building, King Edward VII Avenue
Caerdydd, CF10 3NB
MoseleyS@cardiff.ac.uk

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:
- **Papur Pawb Sain** – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- **Tabl amseroedd bysiau** yn yr ardal
- **Ôl rifynnau'r papur**

Noddwyd y wefan hon gan: Anthony Motors Volkswagen

papurpawb.com

Dyddiadur

Ionawr

11 **Bethel** 5.00 Gweinidog
Nasareth 11.15 Bugail (C)
Rehoboth 10.00 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant 11.00 Boreol Weddi

13 Cymdeithas y Chwiorydd, Capel Rehoboth
Ffilm J. R. Jones (Ann Jenkins).
Neuadd Goffa Tal-y-bont 8.00
CFfI. BINGO

18 **Bethel** 2.00 Gweinidog
Nasareth 10.00 Eifion Roberts
Rehoboth 5.00 Ifan Mason Davies
Eglwys Dewi Sant 11.00 Cymun Bendigaid

19 Merched y Wawr
Cinio Dathlu yng nghwmni Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr (yng Ngwesty'r Marine).

23 Y Llew Gwyn, Tal-y-bont 8.00
Clwb Nos Wener
'A Gymri di Gymru?'
Rhian Morgan a Llio Silyn.

25 **Bethel** 10.00 Gweinidog (C)
Nasareth 5.00 Bugail
Rehoboth 5.00 Judith Morris
Eglwys Dewi Sant 11 Gwasanaeth Teuluol

30 Neuadd Goffa Tal-y-bont 7.30 AberOpera

C.Ff.I. Tal-y-bont a'r Cylch
Bingo
Neuadd Goffa Tal-y-bont
Nos Fawrth, 13 Ionawr
8.00yh

CLWB NOS WENER
23 Ionawr 8 o'r gloch
Y Llew Gwyn, Tal-y-bont
A Gymri di Gymru?
Rhian Morgan a Llio Silyn
Sioe wedi ei seilio ar gerdd Robat Gruffudd
Tocynnau: Medi 832725



Yma i'ch helpu chi Gwasanaeth prawfddarllen

Lwfans o hyd at 1000 o eiriau, am ddim i fusnesau ac elusennau bach a chanolig

0845 6033 221
hybu@comisiynyddygymraeg.org

Chwefror

1 **Bethel** 10.00 Trefniant Lleol
Nasareth 10.00 Bugail (C)
Rehoboth 2.00 Bugail
Eglwys Dewi Sant 11.00 Cymun Bendigaid

4 Capel Bethel Tal-y-bont 7.30
'Hen Hanes Parsel Henllys'
(Ffilm Bennet Jenkins)

8 **Bethel** 2.00 Gweinidog
Rehoboth 10.00 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant 11 Boreol Weddi

10 Cwrdd Chwiorydd Rehoboth
'Ceredigion a'r Rhyfel Mawr'
(Gwyn Jenkins)

11 Neuadd Goffa Tal-y-bont 8.00
Cyfarfod Blynyddol y Neuadd

14 Neuadd Goffa Tal-y-bont 10.30
Bore Coffi Croeso i bawb
(o dan Nawdd Eglwys Dewi Sant)

15 **Bethel** 10.00 Gweinidog (C)
Rehoboth 10.00 Beti Griffiths
Eglwys Dewi Sant 11.00 Cymun Bendigaid

Gweithgareddau'r Ystafell Haearn, Eglwys-fach

15 Ionawr, 6.30-8.30 *pm* : Ffilm '*Forecast; our climate is changing*', ffilm gan Sarah Wood o Fachynlleth wedi ei hysbrydoli gan leisiau Tal-y-bont, y Borth ac Aberystwyth. Y cyfan am ddim gan gynnwys lluniaeth.
18 Ionawr, 3.00-5.00 *pm* : Brenig yn cyflwyno caneuon gwerin a storïau. £5 wrth y drws, bydd te a choffi ar gael neu dewch â'ch diod eich hunain.
21 Ionawr 7.30 *pm*: Dawnsio Albanaidd i'ch paratoi ar gyfer Noson Burns ar:
24 Ionawr 7.15 *pm*. Gellir archebu tocyn gan Janie: janiem@gmail.com

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu eich sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech ddanfon y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442), glenysedwards33@btinternet.com o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Bleddyn a Delyth, gyda Iolo yn dylunio. Golygyddion mis Chwefror fydd Rhian (rhian.evans@tiscali.co.uk), Catrin (catrinssj@gmail.com) ac aelod newydd o'n tîm golygyddol Carys Briddon (carysbriddon@btinternet.com). Croeso Carys. Ceri fydd yn dylunio. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 6 Chwefror, a bydd y papur ar werth ar 13 Chwefror.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru

Pobl a Phethe

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn â Myfanwy James, Siân a Lynwen sydd wedi colli modryb yn Surrey yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Rydym yn cydymdeimlo'n fawr â Matthew Willis, Ystordy, Taliesin, a'i deulu ar golli ei ewythr hoff ychydig cyn y Nadolig.

Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Elsie Thomas, Bryngolau, Tal-y-bont, a oedd wedi bod ym Mhlas Cwmcynfelin, Llangorwen, ers rhai blynyddoedd. Yr oedd yn wraig i'r diweddar Aylwyn, ac yn fam i Marilyn a'r diweddar Alan, ac yn fam-gu i Michael (gweler y deyrnged iddi ar dudalen 7).

Cydymdeimlwn â Rowland Davies, Dôl Cletwr, Tre'r Ddôl, ar golli ewythr iddo.

Drwg gennym glywed am brofedigaeth Chris a Marie Fox, Bwthyn, Pentrebach, wedi i Chris golli'i dad yn ddiweddar.

Ymddiheuriad
Ymddiheurwn am adael allan enw Carol Corfield o'r adroddiad yn rhifyn Rhagfyr yn cydymdeimlo â theulu Brian Jones Pen-lôn, Tal-y-bont, ar golli eu brawd, Meurig.

Genedigaeth
Croeso cynnes i Tomos Llywelyn a anwyd i Kirstie a David, Brynawel, Tal-y-bont, cyn y Nadolig.

Tri dyweddïad
Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu dyweddïad yn ddiweddar: James Gilbert, Sŵn y Nant, Tre'r Ddôl, a Naila Varma; Tara Bradley, 88 Maesyderi, Tal-y-bont, a Neil Forster; Iestyn Roberts, 90 Maesyderi, Tal-y-bont, a Katie Collins.

Pasio'r prawf
Llongyfarchiadau i Medi Evans, Neuadd-fawr, Tal-y-bont, am lwyddo i basio'i phrawf gyrru yn ddiweddar. Dyna'r olaf o blant Neuadd-fawr i osod llythyren D ar y car.

Dathlu pen-blwydd
Llongyfarchiadau i Carol Evans, Tynrhelyg, Tal-y-bont, ar achlysur dathlu pen-blwydd arbennig iawn yn ddiweddar.



Wedi sawl Sul yn ymarfer a dysgu llinellau, cyrhaeddodd uchafbwynt y flwyddyn i ni fel Ysgol Sul, sef ein gwasanaeth noswyl Nadolig. Eleni, fe adroddwyd dwy stori wahanol iawn yn ystod y gwasanaeth.
Yn gyntaf, perfformiodd yr ieuenctid hanes y cadoediad byr rhwng yr Almaenwyr a'r Cymry a gymerodd le yn y ffosydd yng ngwlad Belg, Nadolig,1914.

Yna, perfformiodd y plant lleiaf a'r cynradd stori'r geni. Roedd y plant wedi dewis pa gymeriadau yr hoffent eu portreadu a thynnwyd llwch oddi ar y gwisgoedd priodol, eu smwddio a'u crasu cyn eu gwisgo ar y noson.

Ond er mor wych oedd perfformiad pob unigolyn a gymerodd ran yn y gwasanaeth, Victor, y poni Shetland (a gariodd Mair ar ei gefn) oedd y seren. Gwnaeth ei ran yn ddi-ffws ac arhosodd yn dawel wrth y llety nes i nodau'r garol olaf ddistewi! Diolch yn fawr iawn i deulu Becca am roi benthyg Victor i ni ac i'r tîm o wirfoddolwyr ffyddlon sydd yn cynorthwyo yn yr Ysgol Sul trwy'r flwyddyn.

Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn ar 10 Ionawr am 11.15. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Cafwyd cyfle i ddathlu gyda phryd o fwyd allan yng nghwmni'r teulu.

Dathlodd Elen Ebenezer, Maesyfelin, Tal-y-bont, ei phen-blwydd yn ddeunaw ym mis Rhagfyr.

Eglwys St. Pedr, Elerch
Cynhaliwyd gwasanaeth carolau blynyddol Eglwys Elerch ar Ddydd Sul, 7 Rhagfyr dan arweiniad Y Parchg Andrew Loat, gyda chymorth Y Parchg Heather Evans. Darllenwyd y llithoedd gan Eirlys, Richard, Emyr, Lisa a Glenys. Cyflwynwyd y casgliad o £75.00 i Ambiwlans Awyr Cymru.

Daeth 18 ynghyd am 8.00 y bore ar fore Nadolig i wasanaeth y Cymun Bendigaid dan arweiniad Y Parchg Andrew Loat. Darllenwyd y llith gan Siôn.

Parc Chwarae Bont-goch
Trefnodd y pwyllgor llywio noson agored yn Eglwys Elerch ar 11eg Rhagfyr. Cafwyd cyfle i weld y cynlluniau arfaethedig ar gyfer y parc chwarae newydd ac i gynnig barn ar yr opsiynau gwahanol.

Mascot Cymru
Llongyfarchiadau i Gruff Rhys Williams, 8 oed, o Ysgol Peniel, Caerfyrddin ar gael yr anrhydedd fawr o'i ddewis fel mascot i dîm rygbi Cymru yn ei gêm yn erbyn De Affrig yn ddiweddar. Mae Gruff yn ŵyr i Emyr a Lisa Davies, Llety Ifan Hen, Bont-goch. Profodd yn fascot lwcus gan i Gymru ennill 12-6. Da iawn Gruff.

Croeso
Croeso i ddau o deuluoedd newydd Bont-goch. Dymuniadau gorau i Linda a Steve sydd wrthi yn adnewyddu Tai'r Felin, Bont-goch, ac i Tracey, Sean a'r plant sydd wedi ymgartrefu yn Hengoed.

Llwyddiant wrth y llyw
Llongyfrachiadau i Keith Evans Pen-y-graig, Bont-goch, ar ei lwyddiant yn sicrhau trwydded yrru HGV yn ddiweddar.

Mam-gu am y trydydd tro
Llongyfarchiadau i Mrs Jaqueline Francis, Plas Cefngwyn, Bont-goch, ar ddod yn fam-gu am y trydydd tro. Ganwyd Nia Elodie Rees ar 6 Rhagfyr yn Ysbyty Caer i'w merch Shelley a'i phriod Tom. Mae Nia yn chwaer i Madoc a Harrison. Dymuniadau gorau i'r teulu cyfan.

Clwb y Ffermwyr Ifanc
Llwyddodd aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont i godi'r swm anrhydeddus o £1,777.65 drwy ganu carolau ym mis Rhagfyr. Yr oedd y Clwb yn casglu at dri achos da, sef Ambiwlans Awyr Cymru, Apêl Fflur Fychan ac Apêl Rhys Lewis.

Cefnogwyr yr Ysgol Feithrin

Y trydydd gŵr doeth yng Nghyngerdd yr Ysgol Feithrin

Rhai o'r stondinwyr ifanc a fu wrthi'n helpu i godi arian yng Nghyngerdd Nadolig a Noson Goffi'r Cylch Meithrin ar y 15fed o Ragfyr. Cyfanswm yr arian a godwyd oedd £846.40. Dyna adlewyrchiad unwaith eto o'r gefnogaeth arbennig mae'r Cylch yn ei dderbyn oddi wrth y gymuned leol.

Diwrnod Siwmper Nadolig

I gefnogi'r elusen 'Achub y Plant', gwisgodd y plant a'r staff eu siwmper Nadolig i'r ysgol ar gyfer Diwrnod Siwmper Nadolig. Codwyd £30 tuag at yr apêl.

Eglwys San Mihangel

Bu'r plant yn brysur iawn yn gwneud addurniadau ar gyfer Gŵyl Coed Nadolig Eglwys San Mihangel, Eglwys-fach. Mae amryw o gymdeithasau lleol wedi addurno coeden Nadolig ac maent i'w gweld yn yr eglwys. Aeth y plant hefyd i'r eglwys i gymryd rhan mewn Gwasanaeth Cristingl. Addurnodd y plant oren traddodiadol Cristingl yn yr ysgol a chanwyd carolau Nadolig yn yr eglwys.

Blwyddyn Ryngwladol y Pridd

Daeth Dr John Scullion, sy'n ddarlithydd Gwyddoniaeth Pridd yn y Brifysgol yn Aberystwyth, i'r ysgol i blannu coeden griafolen gyda'r plant. Rhoddwyd y goeden i ni yn rhad ac am ddim gan Gymdeithas Brydeinig Gwyddoniaeth y Pridd. Maent yn awyddus i blant ddysgu am bwysigrwydd pridd gan fod 2015 yn Flwyddyn Ryngwladol y Pridd. Bydd Dr Scullion yn dod yn ôl i'r ysgol yn ystod 2015 i weithio gyda'r plant a'u dysgu am bridd.

Sioe Nadolig

Braf iawn oedd gweld Neuadd Llanfach yn orlawn ar noson y 10fed o Ragfyr i Sioe Nadolig yr ysgol sef 'Eira Wen'. Roedd y llwyfan yn edrych yn wych gyda phalas godidog a choedwig dywyll yn gefndir addas i'r sioe. Dangosodd pob un o'r plant eu doniau actio, canu a dawnsio. Roedd y gynulleidfa wrth eu bodd! Diolchwn yn fawr iawn i'r plant i gyd am eu gwaith caled yn dysgu'r geiriau ac am eu perfformiadau ar y noson. Ar ôl y sioe, aeth pawb yn ôl i'r ysgol am baned a mins pei a diddanodd rhai o'r plant y rhieni gydag eitemau offerynnol. Diolchwn i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am baratoi'r lluniaeth. Diolchwn hefyd i Bwyllgor Neuadd Llanfach am eu cefnogaeth barod.

Finn a Jasmin

Pobl Y Castell a Llys Barn

Llangynfelyn

Cinio Nadolig
Cafwyd ein Cinio Nadolig ar Ddydd Mercher olaf y tymor. Roedd yn wledd eto eleni. Diolchwn yn fawr iawn i holl staff y gegin am baratoi'r cinio ac i Linda Hicks am y craceri.

Parti Nadolig
Ar ddiwrnod olaf y tymor cafwyd ein Parti Nadolig. Bu'r plant yn bwyta, dawnsio ac yn chwarae gemau drwy'r prynhawn. Cyn mynd adref am y gwyliau gadawyd llond sach o anrhegion i'r plant gan Siôn Corn.

Disgyblion Newydd
Croesawn ddwy ferch fach newydd atom i'r ysgol sef Maisie Foulkes a Siskin Harding-Bubb. Hyfryd iawn yw dweud mai Maisie ydy'r bedwaredd genhedlaeth o'i theulu i fynychu Ysgol Llangynfelyn. Roedd ei hen-famgu, Betty Foulkes yn ddisgybl yma a'i mam-gu, Wendy Foulkes. Mae ewythr Maisie, Seamus Byrne, yn ddisgybl yma ym Mlwyddyn 5 ac yn nawr mae Maisie wedi dechrau gyda ni yn y Dosbarth Derbyn. Gobeithiwn fydd Maisie a Siskin yn hapus iawn gyda ni yma yn yr ysgol.

Sinema
Aeth y plant i Sinema'r Commodore i weld y ffilm '*The Lego Movie*'. Mwynhaodd pawb yn fawr iawn. Diolchwn i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am dalu am yr ymweliad.

Siôn Corn

Cerddodd Dosbarth y Cyfnod Sylfaen draw i Siop Cynfelyn i gwrdd â Siôn Corn. Cafwyd prynhawn hyfryd gyda chyfle i bob un o'r plant siarad gyda Siôn Corn. Cafodd bawb anrheg fechan cyn cerdded yn ôl i'r ysgol.

Arian casgliad

Llwyddwyd i gasglu £223 yn y casgliad a gynhaliwyd yn ystod y Gwasnanaeth Nadolig Cymunedol a gynhaliwyd yng Nghapel Bethel cyn y Nadolig. Roedd arian y casgliad eleni yn cael ei gyflwyno i gronfa apêl y grŵp llifogydd i gael diffribileiddwyr i bentref Tal-y-bont. Yno'n derbyn yr arian yr oedd Arthur Dafis ar ran y grŵp llifogydd, a diolchodd yn fawr am y cyfraniad hael am fod cael yr offer hwn yn mynd i olygu bywyd neu farwolaeth i rywun mewn argyfwng.

Bu'r grŵp llifogydd yn canu carolau o gwmpas y pentref hefyd a chasglwyd £170 ganddynt, ynghyd â £154 a gasglwyd yn y raffl a gynhaliwyd yng nghinio blynyddol y criw llifogydd yn y Llew Du ar y 14eg o Ragfyr.

GOLYGYDDOL

A dyna ni wyliau'r Dolig a'r Calan wedi mynd a phawb wedi cael eu gweddill a'u gwala am flwyddyn arall. Ar ddechrau blwyddyn newydd sbon dyma gyfle i ddymuno Blwyddyn Newydd lewyrchus ac iach i bawb o ddarllenwyr y papur hwn.

Dau beth a dynnodd fy sylw yn y papurau dros gyfnod y gwyliau ac a wnaeth i mi deimlo'n flin ac yn drist. Y peth cyntaf oedd fod Llywodraeth Prydain, sef y llywodraeth yr ydych chi a fi yn talu ein trethi iddi, wedi gwario dros £43,000 ar gael cyngor cyfreithiol er mwyn ystyried gwrthwynebu deddfwriaeth Ewropeaidd sy'n rhoi cap ar faint o fonws a gaiff bancwyr ledled Ewrop. Yr ail beth oedd fod cynnydd o 20% wedi bod mewn blwyddyn yn y nifer o bobl sy'n defnyddio banciau bwyd yng Nghymru. Mae hynny'n golygu bod tua 79,000 o bobl yng Nghymru (tua 2.6% o boblogaeth y wlad) bellach yn dibynnu ar roddion gan bobl eraill i'w galluogi i gael pryd o fwyd deche yn lle gorfod mynd heb ddim. Yn yr unfed ganrif ar hugain y mae hyn yn digwydd, a hynny o dan ein trwynau ni.

Tra mae Llywodraeth ei Mawrhydi yn gwario arian cyhoeddus ar geisio gwarchod hawl bancwyr i gael faint a fynnant o fonws, mae'r bobl dlotaf yn ein cymdeithas yn gorfod dibynnu ar ewyllys da a charedigrwydd eraill er mwyn cael un o'r pethau mwyaf sylfaenol ac angenrheidiol mewn bywyd, sef pryd maethlon o fwyd. Dychmygwch y peth mewn difrif: mae buddiannau'r bobl a gyfrannodd at greu'r argyfwng ariannol yn 2007-2008 yn cael eu gwarchod gan y llywodraeth, tra mae'r tlodion sydd wedi mynd yn dlotach oherwydd y toriadau mewn budd-daliadau yn gorfod wynebu mwy fyth o galedi. Rhaid cofio mai ymddygiad barus y bancwyr a arweiniodd at greu'r dirwasgiad economaidd yr ydym yn dal i deimlo'i effaith hyd heddiw. Mae anghyfiawnder y peth yn gwneud i ddyn deimlo'n flin ac yn ddiymadferth. Does ryfedd fod pobl wedi cael eu dadrithio gan y drefn wleidyddol gyfalafol sydd ohoni.

Beth fydd gan 2015 i'w gynnig inni, tybed? A hithau'n flwyddyn etholiad cyffredinol, gadewch inni obeithio y gwelwn ethol llywodraeth sydd yn credu mewn creu cymdeithas decach lle mae'r bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn mynd yn llai, a llywodraeth hefyd a fydd yn ddigon dewr i herio'r bancwyr a'r sefydliad ariannol drwy roi blaenoriaeth i anghenion y mwyafrif yn hytrach na'r lleiafrif mewn cymdeithas.
BOH

Ioga
Neuadd Goffa, Tal-y-bont,
Nos Fawrth am 7.30- 9.00.
Pris £5.00
Cysylltwch a
Sue Jones-Davies
01970 624658

K Hughes
Plymio a Gwresogi
Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew
01970 832129
07761 917235

GOLCHDY LLANBADARN
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON
JEAN JAMES
Ffôn: 01970 612459
Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL



Emynydd amlycaf Cymru yn chwarter olaf yr ugeinfed ganrif oedd y Parchedig W. Rhys Nicholas (1914-96). Yn enedigol o sir Benfro, bu'n weinidog gyda'r Annibynwyr yn y Bryn, Llanelli, Horeb a Bwlch-y-groes, Ceredigion, a Phorth-cawl. Roedd yn fardd ac yn llenor, yn ysgrifennydd i bwyllgor *Y Caniedydd* (1960), ac yn gyd-olygydd cylchgrawn *Y Genhinen* am flynyddoedd. Hannai o'r un pentref â'r diweddar Barchg D. Gwyn Evans, Bethel, Tal-y-bont. Roedd y ddau yn yr un dosbarth ysgol, a dathlwyd canmlwyddiant geni'r ddau ohonynt yn 2014. Cofir W. Rhys Nicholas yn bennaf am ei emynau, yn enwedig 'Tydi a wnaeth y wyrth, O! Grist, Fab Duw', a genir ar y dôn 'Pantyfedwen' gan M. Eddie Evans.

Cyfrol deyrnged iddo yw *Y Cyfoeth Gorau*, a gyhoeddir gan Gymdeithas Emynau Cymru. Mae'n cynnwys teyrngedau ac atgofion gan nifer o'i gydnabod, yn eu plith pennod o atgofion teuluol gan ei nai, Richard E. Huws, Bont-goch, yn ogystal ag ysgrifau am ei farddoniaeth a'i emynau gan awduron eraill, ynghyd â detholiad o'i waith. Pris y gyfrol, a olygwyd gan Dr Rhidian Griffiths, yw £6.95, ac mae ar gael mewn siopau llyfrau lleol.

Y LLEW GWYN
TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
Ar agor bob dydd
Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00
Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £7.50
Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £7.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)
Ystafelloedd ar gael

01970 832245
whitelionhotel1@btconnect.com

Garej Paul Joseph
01970 822220

Pob Math o Geir
Gwasanaeth a Thrwsio
Diagnosteg a Weldio
Paratoi a Thrwsio MOT

Dan Glo, Lon Glanfred, Llandre

Gyrfa Chwist y Sioe

Ar nos Fercher, 17 o Ragfyr, cynhaliwyd ein gyrfa chwist flynyddol. Bu'n noson lwyddiannus gyda 28 o fyrddau, ac yn cadw trefn ar y cyfan yr oedd Glyn Davies yr MC. Daeth cyfle am baned wedi ei baratoi gan y gwragedd hanner amser, a braf oedd cael sgwrs a phtrynu tocyn raffl gan Marion ac Ann. Ailddechreuwyd ar y chwarae a buddugwyr y noson oedd:

Y Sgôr uchaf: Gŵydd – Gillian Jones
Twrci: Ivy Jones, Arhur George
Cyw iâr: Liz Griffiths, D. P. Benjamin, D.A. Ralphs, Evan Jones
Potel o sieri: Eileen Hopkins, Huw Jones
Pwdin Nadolig: Mair Jones, Dafydd Lewis, Phillip Ralphs, Dewi Jenkins
Bwrw allan: Hwyaden: Gaynor Breese, John Daniels
'Miniature isaf': Eirlys Hughes, Anwen Davies
Dyn/dynes yn eistedd hiraf: Elwen Edwards, Ifor Jones
Plentyn 16 oed ac iau: Eleri Jones, Thomas Jenkins

Ein llywyddion a wnaeth dynnu gwobrau'r ddwy raffl, a dyma'r prif enillwyr:

Penwythnos i deulu o 4 yn un o fythynnod Tynrhelyg – Mari Hughes
£100 – BML Hayley (Bearing Man)
£50 – Glesni (NFU)
MOT Garej Davmor – H. Williams, Penrhosmawr, Penegoes
£25 – Ela Grug d/o Eurfan, Tal-y-bont
£20 rhoddedig gan H. Rowlands, Eurglodd – Teulu Tanrallt, Tal-y-bont
£20 – Jones Fferm Ynys Hir
£10 tocyn anrheg CCF Aberystwyth – M. Griffiths, Ffosygrafel
£10 – Rebecca, Mur Mawr, Tal-y-bont

Enillwyd rhai gwobrau o'r raffl fach gan bobl leol. Cyn troi am adref, diolchodd y gadeiryddes i bawb am eu cyfraniad i'r noson.

Janet Jones

Eglwys Sant Mihangel, Eglwys-fach

Yn dilyn ymddeoliad y Parch Cecilia Charles, bydd trefn newydd yn yr eglwys o 18 Ionawr ymlaen gyda'r mwyafrif o'r gwasanaethau yn cael eu harwain gan y Parch David Williams a'r Canon Stuart Bell.

Mae *Cylchgrawn y Plwyf* (gol. Y Parch. D Williams), sydd yn cynnwys Eglwys-fach, Llangynfelyn a'r Borth, ar gael yn yr eglwys am 30c.

Eglwys Dewi Sant, Tal-y-bont

Cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau yn Eglwys Dewi Sant, Tal-y-bont ar ddydd Sul, 21 Rhagfyr am 5 o'r gloch. Daeth bron i 50 o blant ac oedolion yno a mwynhawyd cyfuniad o garolau Cymraeg a Saesneg. Siaradodd y Parch Peter Jones am ystyr Cristingl ac yna fe gafodd y plant yn y gynulleidfa gyfle i wneud un i bawb yn yr eglwys. Tua diwedd y gwasanaeth fe ddiffoddwyd y golau ac fe gafodd yr eglwys ei goleuo gan ganhwyllau'r Cristinglau yn unig gan greu effaith a naws arbennig yno. Wedi'r gwasanaeth, gwahoddwyd pawb i ymuno am goffi a mins pei a chyfle i gymdeithasu.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD

Cyfarfu'r Chwiorydd yn festri Rehoboth, Taliesin, ar brynhawn Mawrth, 9 Rhagfyr. Darllenodd Eiriona bennill amserol o waith Alan Llwyd i ddechrau'r cyfarfod, ac yna cyflwynodd ein gwraig wadd, sef Beti Wyn Davies, un o'n haelodau. Bu gan Beti Wyn ddiddordeb mewn gwaith llaw a chrefftau erioed, ac yn ddiweddar mae wedi ymddiddori mewn gwaith ffelt. Daeth â llond bwrdd o enghreifftiau o'i gwaith i'w dangos i ni, ac eglurodd y broses o ffeltio a'r modd y mae'n creu pob math o ddeunydd addurniadol ar gyfer y cartref. Diolchwyd iddi am brynhawn difyr iawn gan Mai Leeding. I ddilyn, mwynhawyd te, mins peis a danteithion eraill wedi eu paratoi gan Eiriona Metcalfe a Carys Briddon.

Teyrnged i Elsie Thomas gan Gangen Tal-y-bont o Sefydliad y Merched

Yr oedd yr holl aelodau'n drist o glywed am farwolaeth Elsie Thomas ychydig ddyddiau cyn ei phen-blwydd yn 89 oed. Bu Elsie yn aelod o Gangen Sefydliad y Merched yn Nhal-y-bont am 70 mlynedd. Hi oedd y ddolen gyswllt â'r gorffennol. Am nad oes gennym gofnod ysgrifenedig am y cyfarfodydd cyntaf oll, roedd Elsie yn gallu dweud wrthym mai ym mis Tachwedd 1916 y sefydlwyd y gangen. Ei mam oedd un o'r aelodau cyntaf a'r sylfaenwyr.

Roedd Elsie yn gyn-lywydd ac yr oedd bob amser yn cymryd rhan flaenllaw yn yr holl weithgareddau, boed wrth baratoi'r lluniaeth mewn cyfarfodydd poblog neu'n actio mewn dramâu a nosweithiau adloniant a gynhelid gan yr aelodau yn y pentref neu o fewn y sir. Ymhell cyn i'r difyrwyr poblogaidd ar y teledu, Les Dawson a Roy Barraclough, wneud eu sgets 'Cissie and Ada', yr oedd Elsie ac aelod gwerthfawr arall o'r gangen, Ruffina Owen, wedi creu cymeriadau tebyg drwy wisgo hetiau gwirion a chynffon llwynog ac yn creu sgetsys byrfyfyr a darnau doniol a dychanol.

Pan symudodd i gartref gofal Plas Cwmcynfelin rai blynyddoedd yn ôl, ei dymuniad oedd parhau'n aelod o Sefydliad y Merched, gan barhau i dderbyn y cylchgrawn *WI Life* bob mis. Parhaodd hefyd i brynu dyddiadur y WI bob blwyddyn, gan gynnwys y dyddiadur ar gyfer 2015. Bydd yr holl aelodau'n gweld ei heisiau yn fawr.

Sheila Talbot

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch

Ar bnawn Llun, 8 Rhagfyr daeth yr aelodau at eu gilydd i brofi naws y Nadolig. Roedd y pnawn yng ngofal nifer o aelodau dawnus y gangen a chafwyd gwledd i'r llygaid wrth weld yr arddangosfa liwgar o grefftau Nadolig hyfryd a baratowyd yn arbennig ar ein cyfer. Yn ogystal, cafwyd darlleniad a chyfle i flasu pwdin siocled hufennog! Wedi cwpaned a rhagor o ddanteithion melys, diolchwyd i bawb gan Fal Jenkins.

Ar nos Sul, 14 Rhagfyr, cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig cymunedol yng nghapel Bethel, dan nawdd y gangen. Cafwyd nifer o eitemau cerddorol ynghyd â darlleniadau amrywiol gan gynrychiolwyr nifer o cymdeithasau a chapeli'r ardal a disgyblion Ysgol Tal-y-bont. Mawr yw ein diolch i bawb a gymerodd ran gan sicrhau gwasanaeth bendithiol mewn awyrgylch cynnes a hapus.

Teyrnged

Yn 80 oed bu farw Don Groves, Banc y Llan, Eglwys-fach ar 16 Rhagfyr. Cyrhaeddodd Don a Celia y pentref yn 1985 gan agor a rhedeg y siop a oedd yn enwog am ei bwyd a'i diod yn ogystal â bod yn ganolbwynt i'r pentref. Am flynyddoedd bu Don yn weithgar iawn ar y Cyngor Cymuned gan fod yn Gadeirydd am sawl tymor ac ymladd aml i frwydr, gan gynnwys yr un llwyddiannus i wella'r ffordd yng Nglandyfi.

Cafodd yrfa amrywiol a diddorol, gan ddechrau gyda chwmni Kodak ble cychwynnodd ei fwynhad gydol oes ac arbenigedd mewn ffotograffiaeth. Aeth ymlaen i'r byd peirianyddol, ac yna i weithio gydag undeb llafur ASTMS. Dilynodd egwyddorion cadarn a bu yn wleidyddol weithgar ar hyd ei oes, fe wnaeth y byd yn well lle. Bydd colled fawr ar ei ôl a chydymdeimlwn â Celia a'r teulu.

Canu Carolau

Aeth aelodau o griw CIC (Cymdeithas Ieuenctid Cristnogol) i Gartref Tregerddan ac i Faes Gogerddan, Aberystwyth ar bnawn Llun, 22 Rhagfyr i ganu carolau. Cafwyd cymorth Betsan Siencyn, Tanrallt, Tal-y-bont a gyfeiliodd ar y ffliwt ac a roddodd unawd hefyd. Diolch i bawb a gymerodd ran. I gloi'r gweithgareddau, mwynhawyd sglodion yn y dre cyn dychwelyd adre.

Garej Davmor

- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278 www.davmorgarage.co.uk

Cyngor Cymuned Llangynfelyn

Cymorthdaliadau

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau gwirfoddol lleol.

Dylid anfon ceisiadau ynghyd â chopi o'r fantolen ddiweddaraf at:

Y Clerc
Cyngor Cymuned Llangynfelyn
Blaenddôl
Tre'r-ddôl
Machynlleth
Powys
SY20 8PL

erbyn **dydd Sadwrn, 31 Ionawr 2015** fan bellaf

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf.
Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau.
Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaerniol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 Awr— Wedi ei wresogi

Bocses a 'bubblewrap' ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk

Ffon: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

Ysgol

Panto Nadolig

'Wel am Banto!'oedd teitl ein cyngerdd Nadolig ni eleni ac am bantomeim a gafwyd! Roedd y Neuadd Goffa'n llawn dop unwaith eto o rieni, ffrindiau a chyn-ddisgyblion wedi dod i gefnogi'r ysgol ac i weld y plant yn actio, yn canu ac yn perfformio. Roedd tipyn o ofid yng Ngwlad y Panto gan fod yr hen wrach gas a'i dilynwyr wedi dwyn yr hud da i gyd ac ar fin cael y gorau ar blant Cymru y Nadolig hwn. Roedd hi wedi sicrhau na fyddai ffa Jac yn tyfu, nid oedd troed Sinderela'n ffitio yn yr esgid ac roedd y *genie* yn sownd yn lamp Aladdin. Am drychineb! Ond gyda llawer o gydweithio ac ychydig o lwc llwyddwyd i ddenu'r wrach a Hyll a Hyllach i'r golau hud ac fe gafwyd diweddglo hapus yn y diwedd. Roedd y perfformiad yn cynnwys darnau bychan o'r holl bantomeimau poblogaidd ac wedi eu gwau at ei gilydd yn llwyddiannus iawn a hoffwn i ddiolch yn fawr i Miss Morris am gydlynu'r perfformiad, i'r holl staff am eu gwaith yn paratoi'r plant mor arbennig ac i'r rhieni hefyd am gynorthwyo gyda dysgu'r geiriau, y caneuon a'r gwisgoedd. Roedd sawl un o'r gynulleidfa wedi nodi fod y perfformiad yn un uchelgeisiol, a phob clod i'r plant am ddysgu eu darnau mor arbennig ac am eu perfformiadau cofiadwy.

Hoffwn i ddiolch yn fawr i aelodau gweithgar y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am roi o'u hamser i baratoi ar gyfer y noson ac am weithio mor galed i sicrhau fod pawb wedi mwynhau eu hunain. Diolch yn fawr i bawb wnaeth gyfrannu at y raffl a llongyfarchiadau i bawb a enillodd wobr. Diolch hefyd i Mr Ieuan Morgan, Mrs Myfanwy James a Phwyllgor y Neuadd am gael defnyddio'r adeilad ac am bob cymwynas yn arwain at noson y perfformiad.

Roedd hi hefyd yn braf gweld stondin o gynnyrch gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Penweddig fel rhan o'u cwrs Bagloriaeth Gymreig ar y noson. Credwn fod hyn yn atgyfnerthu ymdrechion yr ysgol i fod yn gynhwysol ac i sicrhau ein bod yn rhan bwysig o'r ardal leol yn ogystal â chael cyfrannu i'r gymuned ehangach.

Sinema

Mae plant yr ysgol yn ffodus iawn o gael mynd i weld ffilm yn Sinema'r Commodore yn Aberystwyth yn flynyddol diolch i haelioni'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon. Eleni y ffilm oedd '*The Lego Movie*' ac fe gafodd pawb amser da wrth chwerthin ar gampau'r cymeriadau doniol.

Ffotograffiaeth

Mae traddodiad diweddar o blant yr ysgol o ennill gwobrau ffotograffiaeth lleol a chenedlaethol yn parhau. Yn ystod mis Rhagfyr, derbyniwyd e-bost i gadarnhau bod Elen Hughes wedi ennill gwobr yng nghystadleuaeth blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn ôl yr e-bost roedd 'y safon eleni yn eithriadol o uchel, ac o'r herwydd tasg anodd iawn fu beirniadu'. Llongyfarchiadau mawr i ti Elen a gobeithio y gwnei di fwynhau gwario talebau siopau'r stryd fawr hefyd.

Clwb ar ôl Ysgol

Un o'r mentrau cyntaf i mi fel Prifathro fod yn rhan ohoni wrth ddechrau yn Ysgol Tal-y-bont oedd sefydlu Clwb ar ôl Ysgol. Bwriad y Clwb oedd sicrhau darpariaeth ar ôl ysgol i rieni oedd yn gweithio ac i roi mwy o gyfleoedd i blant y dalgylch i fynychu ysgol y pentref. Roedd nifer o rieni'r cyfnod hwnnw'n frwd iawn dros sefydlu'r Clwb ac roedd llawer o ymchwil i'r maes wedi sicrhau ein bod yn gymwys i gael grantiau oedd ar gael ar y pryd i sefydlu Clwb o'r fath. O'r cychwyn cyntaf profodd y Clwb i fod yn llwyddiannus ac yn aml byddai dros 20 o blant yn mynychu.

Ers blynyddoedd bellach mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn pwysleisio pwysigrwydd lles plant ac yn rhoi cryn dipyn o bwysau ar ysgolion i ddarparu'n eang ar gyfer plant a'u teuluoedd ac mae parhau i gynnal y Clwb ar ôl Ysgol wedi bod yn flaenoriaeth bwysig i ni yma yn Nhal-y-bont. Y mae cnewyllyn o rieni'n dibynnu ar y ddarpariaeth er mwyn gallu parhau i weithio digon ....

Tal-y-bont

'Wel am Banto!'

Gwasanaeth Ysgolion y Bartneriaeth

Ar ddiwrnod olaf y tymor cynhaliwyd gwasanaeth arbennig rhwng disgyblion Ysgol Tal-y-bont ac Ysgol Craig yr Wylfa yng Nghapel Nasareth, Tal-y-bont. Roedd hyn yn gyfle arbennig i ddod at ein gilydd i ddiolch i'r staff a'r plant am eu holl waith caled yn ystod y tymor ac i'w canmol am y cyngherddau Nadolig cyffrous a safonol a gynhaliwyd cyn diwedd y tymor. Roedd hi'n gyfle hefyd i gofio am bwysigrwydd yr adeg yma o'r flwyddyn a chofio neges y geni. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i swyddogion y capel am adael i ni ddefnyddio'r adeilad ac yn arbennig i'r Parch Wyn Morris am ei stori bwrpasol ac i Mrs Janet Jones am gyfeilio i ni.

Ray Ceredigion

...o oriau yn eu swyddi. Mae'n bosibl y byddai rhai o'r rhieni hyn wedi dewis ysgol arall os nad oeddem yn darparu'r clwb ar ôl ysgol yma. Ar hyd yr amser, buom yn ffodus iawn o fedru penodi staff brwdfrydig i fod yn gyfrifol am y Clwb hefyd ac rydym yn ddiolchgar iawn i Miss Vicky a Miss Karren am eu gwaith ar hyn o bryd.

Ond, oherwydd nifer o amgylchiadau'n ddiweddar, mae sefyllfa'r Clwb wedi troi i fod yn hynod fregus a bu pryder a fyddem yn gallu parhau gyda'r ddarpariaeth ai peidio. Ond ar ddiwedd y tymor daeth newyddion da iawn, sef bod y Clwb wedi bod yn llwyddiannus i dderbyn grant gan Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr.

Siwmperi Nadolig

Mae gwisgo ein siwmperi Nadolig yn dechrau troi yn draddodiad yr adeg yma o'r flwyddyn. Cawsom dipyn o hwyl eleni eto yn cymharu gwahanol siwmperi y plant a'r staff! Roedd sawl un diddorol iawn yn eu plith a nifer o rai doniol iawn hefyd. Ond prif bwrpas eu gwisgo oedd codi arian i elusen NSPCC ac roedd hi'n braf gallu trosglwyddo £48.00 i goffrau'r elusen hon.

Cinio Nadolig a Ray Ceredigion

Mae unrhyw ymwelydd sy'n ffodus o gael cinio yn Ysgol Tal-y-bont yn sicr o ganmol y bwyd sydd ar gael yma ac roedd blasu cinio ardderchog Mrs Jones, Mrs James a Natalie yn ein hatgoffa unwaith eto pa mor ffodus ydym ni yma yn Ysgol Tal-y-bont. Mae'r prydau bwyd o'r safon uchaf bob dydd a'r plant wrth eu boddau'n bwyta llond eu boliau.

Ar ôl cinio daeth Ray Ceredigion atom i gynnal sesiwn o greu gwrthrychau gwahanol ac amrywiol gan ddefnyddio gwastraff a deunydd ailgylchu. Roedd hi'n bleser gweld plant o bob oed yn helpu ei gilydd gyda'r creu a diolch i bawb fu'n clirio'r neuadd ar ddiwedd y gweithgaredd hefyd! Mae Ray Ceredigion wedi bod yn cynnal sesiynau chwarae yn y parc ers nifer o fisoedd ac roedd hi'n braf eu croesawu i'r ysgol unwaith eto.

Dylan ar Daith ... a fi

Mae cael cynhyrchu rhaglenni radio a theledu yng Nghymru yn fraint ac rwy wrth fy modd gyda bob rhaglen sydd yn dod i fewn i'n Cwmni Unigryw. Ond ambell dro y mae rhaglen neu gyfres yn cael ei chomisiynu sydd yn wirioneddol arbennig a dyna beth ddigwyddodd y llynedd, sef cael comisiwn gan S4C am gyfres o 6 rhaglen a phob un ohonynt i'w ffilmio dramor. Roeddwn i wedi cynnig syniad ar y cyd â Dylan Iorwerth, a oedd i gyflwyno, sef dilyn un daith allweddol ym mywyd Cymro neu Gymraes oedd wedi gadael ei marc mewn gwlad dramor. Ac Aled Jenkins, o Aberystwyth yn wreiddiol, i fod yn berson camera. Felly tîm bychan iawn i ffilmio chwe rhaglen awr mewn pedair gwlad ar dri chyfandir!

Mehefin 2013 a bant â ni i Efrog Newydd, Alabama, Tennessee, Iowa a Pennsylvania.

Glaw yn Efrog Newydd, haul crasboeth yn Alabama a thywydd bendigedig yn Iowa. Ffilmio mewn Capel Cymraeg yn Iowa a oedd wedi goroesi 150 mlynedd a'r fynwent yn llawn cerrig beddi Cymraeg. Ac yna Scranton, i ardal lle'r aeth miloedd o Gymry yn y ganrif cyn diwetha. Dim Cymraeg yno erbyn hyn ond llawer iawn iawn yn dweud bod ganddyn nhw dad-cu neu fam-gu o Gymru. Roedd rhywbeth chwerw-felys am fod yno. Pobol yn gwybod eu bod o dras Gymreig ond ychydig iawn iawn o ddealltwriaeth o beth yw Cymru.

Cyrraedd nôl ond mewn llai na phythefnos roedden ni yn Bolifia yn dilyn hanes Ifor Rees, Bow St, a fu'n llysgenhad yno yn y 1940au. Gwlad hollol ryfeddol. Llyn halen hanner maint Cymru, awyr las, las, las a menywod mewn bowler hats. Dinasoedd gorlawn a gwyllt o brysur, a miloedd ar filoedd o erwau gwag yng nghefn gwlad.

Yna ym mis Hydref trip anferth i daleithiau Dakota, Washington, Hawai'i ac i Ganada. Cyfarfod siaradwr naturiol olaf yr iaith Mandan, gweld beth wnaeth y dyn gwyn i'r cenhedloedd cyntaf yn America, croesi'r Rockies yng Nghanada, a hwylio ym Mae Vancouver. Ymweld â dwy ynys yn Hawai'i a gweld caeau lafa, mynyddoedd tân, traethau du, môr glas, glas, glas llawn syrffwyr a hwylio mewn bae llawn dolffins. Mae'n swnio'n egsotig, a mewn ffordd yr oedd e, onibai am y ffaith bod yn rhaid ffilmio o leiaf ddeg awr y dydd.

A sôn am egsotig – y trip olaf – i India. Delhi, Darjelling, Guwahati, Argatala, Silchar a Karimganj. 10 taith awyren a channoedd o filltiroedd mewn car a phob munud yn teimlo

fel mai honno fyddai'r olaf. Mae pawb a phopeth ar y ffordd yn India - loris, ceir, faniau, rickshaws, pobol ar feics, plant yn chwarae a gwartheg. Ac oni bai am y plant a'r gwartheg y mae pawb arall ym mynd fel y cythraul gan gynnwys y rhai oedd yn ein gyrru ni o fan i fan. Roedd teithio yn y dydd yn ddychrynllyd o weld tri neu bedwar peth yn dod i'ch cyfarfod a dau neu dri peth ar naill ochr i chi, ond yn y nos ... o mam bach. Ond goroesi pob siwrne ac olrhain hanes cenhades arbennig i India.

Mae yna Gymry wedi teithio i lefydd rhyfeddol ac wedi cyflawni pethau rhyfeddol. Yn ein cyfres cewch glywed am fapiwr a luniodd fapiau hollol allweddol i hanes Canada, awdures a heriodd ddynion ei hoes, cenhades a greodd gartre diogel i'r anghennus yn India, gohebydd a sgwennodd i'r *Faner* am ei fod yn Washington pan basiwyd y Mesur oedd yn rhyddhau'r caethion, llysgenhad a oedd yn awdur ac yn ffotograffydd dawnus a'r olaf – a'r cymeriad mwyaf efallai – y llawfeddyg a oedd gyda Cook ar ei daith olaf i Hawai'i. Roedd yn bleser cael dilyn ôl eu traed.

Ar S4C o'r 3ydd o Ionawr am 21:00 – Dylan Ar Daith.

Catrin M.S.Davies

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN
Pencefen ,Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292

Addunedau Blwyddyn Newydd…

A fyddwch chi'n gwneud adduned blwyddyn newydd? Aeth gohebydd y papur ati i holi rhai o'r darllenwyr i gael gwybod pa addunedau a wnaed ganddynt eleni. Dyma ddetholiad o'r atebion a gafwyd:

'Fydda i byth yn gwneud addunedau am fy mod bob amser yn eu torri.'

'Eleni rwyf yn benderfynol o fod yn fwy heini er mwyn colli pwysau a dod yn fwy ffit.'

'Rwy'n credu fod gormod o negyddiaeth o gwmpas, felly rwyf wedi penderfynu bod yn fwy positif ynghylch pethau ac edrych ar yr ochr olau i fywyd.'

'Fy adduned eleni yw colli pwysau. Rwyf wedi rhoi gormod o bwysau ymlaen dros y Dolig, felly rwyf am ddechrau'r flwyddyn drwy ddeieto. Dim mwy o siocled a gwin i mi!'

'Cynilo mwy o arian hoffwn i ei wneud er mwyn medru mynd ar wyliau.'

'Fy adduned eleni yw cysylltu mwy â fy ffrindiau, yn enwedig y rheini nad wyf wedi eu gweld ers talwm. Mae bywyd mor brysur, ond eleni rwy'n benderfynol o neilltuo mwy o amser ac ymdrech i gysylltu â hen ffrindiau.'

Gwledd y Nadolig o Ffwrn Allt-goch

Y cyflwynydd Aled Hughes yng nghwmni Dilys Morgan, Allt-goch

Yn ystod taith Nadolig Radio Cymru bu'r cyflwynydd Aled Hughes yn ymweld â chegin brysur Dilys Morgan Allt-goch i sgwrsio am y paratoadau ar gyfer cyflenwi archebion i fannau pell ac agos yn ystod cyfnod yr Ŵyl. Yn ogystal â pharatoi dwsinau lawer o botiau jam, tsiytnis, a chacennau, yr oedd Dilys yn amcangyfrif y byddai wedi gwneud 2,000 o fins peis i gyd dros gyfnod y Nadolig. Yr oedd hefyd wedi allforio cymaint â 200 o dorthau bara brith i'r Almaen yn rhan o'r cyflenwad bwyd lleol a anfonwyd gan Bwyllgor Gefeillio tref Aberystwyth â Kronberg im Taunus.

Yr oedd Dilys wrthi yng nghanol prusurdeb y gwaith o baratoi at Ffair Nadolig y Ffermwyr yn Aberystwyth ar y Sadwrn olaf cyn y Nadolig, ac mae'n amlwg fod Aled wedi rhyfeddu at faint y cynnyrch yr oedd Dilys yn llwyddo i'w baratoi yn ei chegin yn ffermdy Allt-goch. Pan ofynnwyd iddi a oedd yn paratoi unrhyw ddarn blasus o fwyd i'w fwyta gan y teulu, dywedodd ei bod bob blwyddyn yn gorfod gwneud *giblet pie* sydd yn ffefryn gan David ei gŵr. Yr oedd gwrando ar ddisgrifiad Aled o'r holl gynnyrch a oedd o'i flaen yn tynnu dŵr i'r dannedd.

Arafu'r Traffig

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd Ysgol Tal-y-bont yn un o wyth ysgol trwy Gymru a fydd yn manteisio ar yr arian sydd ar gael i gyflwyno cyfyngiad cyflymder gorfodol o 20 milltir yr awr y tu allan i'r ysgol ar adegau arbennig o'r dydd. Bydd y gorchymyn yn cael ei weithredu erbyn diwedd Ebrill eleni. Pwysleisiodd Edwina Hart, y Gweinidog Trafnidiaeth, mai cyfyngiad rhan-amser fydd ef, dim ond pan fydd disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn y bore ac yn gadael yn y pnawn.

Amcan y cynllun yw diogelu plant a'u rhieni sy'n teithio i ysgolion sydd wedi eu lleoli ar ar briffyrdd prysur a pheryglus, a chan fod yr A487 yn ffordd lle mae nifer o geir a lorïau mawrion yn teithio arni ar adegau prysur o'r dydd, bydd arafu'r cyflymder i 20 milltir yr awr yn gwneud teithio i'r ysgol yn brofiad mwy diogel.

Y Gair Olaf

Yn sgil yr holl falu awyr am agor y rheilffordd i Gaerfyrddin, mae atgofion melys yn dod i'm cof am fynd yn aml ar y trên yng nghwmni fy mam a'm brawd Ieuan i weld mam-gu a dad-cu oedd yn byw yn Llwynygroes. Siwrnai rhwng dau dŵr, tŵr Pen Dinas a thŵr y Dderi ger Betws Bledrws. Yn aml, injan 'Dukedog' oedd ar y blaen ac ar ôl gadael Trawsgoed yr oedd hi'n tuchan dipyn wrth ymlwybro i fyny at Rhaeadr Caradog. Mynd wedyn trwy dwnel bach a chodi tipyn o stêm wrth gwympo lawr i Strata Florida. Wedyn croesi'r afon Teifi a Chors Caron a phasio heibio i lyn hyfryd cyn cyrraedd Tregaron. Yno gweld cwningod yn cael eu llwytho i fan y gard ac yna ymlaen i Bont Llanio a rhagor o gwningod. Ymlaen wedyn at Olmarch Halt a disgyn o'r trên yno a byddai tacsi Jack y Gof yno i'n cludo i Dŷ Capel Llwynygroes. Mewn blynyddoedd wedyn fe fûm yn daniwr ar y trenau o Aberystwyth i Gaerfyrddin a chael dipyn o siom pan gaewyd y lein gan Beeching. Er hynny, nid wyf yn bleidiol i ailagor y lein yn syml am nad oes angen amdani. Ychydig oedd yn defnyddio'r trên amser hynny a heddiw mae mwy o bobl yn berchen ar geir. Yr oedd trên nwyddau yn dod i Aberystwyth o Gaerfyrddin a hefyd yn yr haf byddai trenau Butlins o dde Cymru yn dod trwy Aberystwyth ar eu ffordd i Bwllheli. Yn aml mewn archfarchnadoedd gwelir slogan 'after it's gone, it's gone' a dyna'r gwir am y lein i Gaerfyrddin. Heddiw fe fyddai'n well i ni ymladd yn erbyn cau adrannau o'r ysbyty lleol neu 'after it's gone it's gone' fydd hi yna hefyd.

Reg Jones

Chwaraeon

AR Y BRIG

Tal-y-bont yn gwisgo'r cit newydd am y tro cyntaf cyn y gêm yn erbyn Tregaron.

Blwyddyn yn ôl roedd Clwb Pêl-droed Tal-y-bont ar frig ail adran Cynghrair Cambrian Tyres Aberystwyth a'r cylch ond erbyn diwedd 2014 roedd y clwb wedi cyrraedd brig yr adran gyntaf – tipyn o gamp. Cyrhaeddwyd y copa ychydig cyn y Nadolig pan gurwyd Tregaron o dair gôl i un ar Gae'r Odyn Galch.

Yn gwisgo'u cit newydd a noddwyd gan Barc Carafanau Searivers, roedd y bechgyn yn rhy gryf ar gae trwm wedi i Dregaron gael y gorau o'r munudau cynnar. Pylodd y bygythiad o gyfeiriad blaenwyr Tregaron er i Jamie Barron orfod arbed sawl ergyd o bell. Ganol yr hanner cyntaf sgoriodd Tal-y-bont ddwy gôl yn syth ar ôl ei gilydd. Roedd y cyntaf yn gôl i rwyd ei hun gan un o amddiffynwyr Tregaron a'r ail yn dilyn cic o'r smotyn a ddyfarnwyd i Dal-y-bont. Arbedwyd ergyd Clive 'Jemba' Morgan gan y gôl-geidwad, ond llwyddodd Jemba i sgorio wrth i'r bêl adlamu i'w draed.

Bu Tal-y-bont yn amddiffyn am gyfnodau hir yn yr ail hanner ond fe fethodd Tregaron sawl cyfle. Yna sicrhawyd y fuddugoliaeth pan arbedwyd ergyd o bell gan Robbie

Amddiffynwyr Tal-y-bont yn gwylio arbediad gwych gan Jamie Barron

Southgate ond syrthiodd y bêl yn hwylus i Jamie Evans a sgoriodd y drydedd gôl. Rhwydodd Tregaron gôl gysur yn y munudau olaf .

Bydd y clwb nawr yn edrych ymlaen at ail hanner cyffrous i'r tymor gan obeithio am fwy o lwyddiant.

CANOLFAN M.O.T. HUW LEWIS M.O.T. CENTRE
Glanyrafon

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

HUWLEWISTYRES.COM

TEIARS HUW LEWIS TYRES
Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.
ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

argraffu da
am bris da

ylolfa
holwch Paul am bris ar **paul@ylolfa.com**
01970 832 304 **www.ylolfa.com**